# Sesiwn 4
# Stori diwylliant

## Nod

**Erbyn diwedd y sesiwn hon, fe ddylai aelodau'r grŵp fedru:**

- Deall y rôl y mae diwylliant yn ei chwarae yn y ffordd rydyn ni'n rhannu ein ffydd.
- Bod â rhyw fras ddealltwriaeth o rywfaint o'n tirwedd diwylliannol presennol.
- Dechrau ystyried sut orau i rannu ein stori a stori Duw o fewn yr amgylchfyd hwn.

### Cyn y sesiwn...

**Darllenwch: Story Bearer – Penodau 9-11**

---

## Adolygu

Myfyryio ar yr ymrwymiadau a wnaed ar ddiwedd sesiwn yr wythnos flaenorol. Rhowch gyfle i aelodau'r grŵp i roi adborth neu fewnbwn am unrhyw beth a all fod wedi digwydd fel canlyniad i'r penderfyniadau a wnaethon nhw. Mae'n bosib nad oes unrhyw beth i'w adrodd, ond mae'n gyfle gwych i ddiweddaru ac atgoffa.

# Croeso

**Gan mai sesiwn am arwyddion yr amserau ydy hon, mae'r cwis croeso yn gyfle i geisio dyfalu blwyddyn nifer o ddigwyddiadau nodedig:**

- Marwolaeth Iŵl Cesar – 44BC
- Dechrau gwrthryfel Owain Glyndŵr - 1400
- Cyfieithu'r Testament Newydd i'r Gymraeg - 1567
- Datganiad Annibyniaeth yr Unol Daleithiau - 1776
- Brâd y Llyfrau Gleision - 1847
- Hedd Wyn ac Eisteddfod y Gadair Ddu ym Mhenbedw - 1917
- Trychineb Glofa Gresffordd - 1934
- Llosgi'r Ysgol Fomio ym Mhenyberth - 1936 Bryn Terfel yn cael ei eni - 1968
- Anfonwyd yr e-bost gyntaf - 1971
- Gareth Bale yn ennill ei gap cyntaf i Gymru - 2006

Mae'r sesiwn hon ynglŷn ag ystyried goblygiadau y byd rydyn ni'n byw ynddi ac ystyried sut mae'n effeithio ar y ffordd rydyn ni'n edrych ar y byd a sut mae'n effeithio ar agweddau eraill tuag at newyddion da Iesu. Mae hi'n egwyddor bwysig iawn i ystyried nad ydy egwyddorion sylfaenol yr Efengyl byth yn newid, ond mae'r modd rydyn ni'n ei chyfathrebu a'r agweddau rydyn ni'n dewis canolbwyntio arnyn nhw yn gwahaniaethu.

## Darllenwch...

**Actau 17: 16-34**

## Gwyliwch...

**Because Them, Us - https://www.youtube.com/watch?v=sAykd_FhWhQ**

# Trafodwch

- Wrth ichi ddarllen y darn yma yn Actau, beth sy'n tynnu eich sylw ynghylch y ffordd mae Paul yn ymwneud â'r diwylliant mae'n ceisio ei gyrrraedd?
- Yn Story Bearer, pennod 9, mae Phil yn amlinellu sawl agwedd o'r diwylliant ym mywydau cenhedlaeth y Milflwydd:
  - Brodorion Digidol
  - Gwrth-sefydliad
  - Unigolyddiaeth a chymuned

  Pa un o'r rhain sy'n canu cloch i chi? Sut mae'r rhain yn effeithio ar sut rydyn ni'n siarad am ein ffydd?
- Pa agweddau o'n diwylliant sy'n sefyll allan i chi o'r fideo, 'Because Them, Us.'? Os ydy'r rhain yn wir o'n byd, pa oblygiadau gaiff hyn ar y modd rydyn ni'n rhannu ein stori?
- Gan feddwl yn benodol am y chwyldro digidol, sut mae datblygiad cyflym technoleg yn gyffredinol a'r cyfryngau cymdeithasol yn arbennig, wedi effeithio ar ein golwg o'r byd?

## Gwyliwch...

**My Phone is my Shepherd - https://youtu.be/6PdrD3vdS34**

# Gweithgaredd

Cymerwch ddarn mawr o bapur (neu gludwch rhai llai at ei gilydd!) a'i osod yng nghanol yr ystafell. Fel grŵp, cymerwch thema o'n diwylliant, un ai un a drafodwyd eisoes, e.e. dylanwad y cyfryngau cymdeithasol, agweddau gwrth-sefydliad neu unrhyw un arall a ddaw i'r meddwl neu sy'n arbennig o berthnasol. Tynnwch linell i lawr canol y papur ac ar y naill ochr rhestrwch nodweddion negyddol y tueddiad diwylliannol hwnnw, neu'r agweddau ohono y dylid eu herio neu eu cwestiynu ac ar yr ochr arall, rhestrwch yr agweddau positif, gan fynd ymhellach a gofyn sut mae'r rhain yn cynnig cyfleoedd i'r newyddion da ledaenu.

Er enghraifft - dyma ichi ambell wedd negyddol a chadarnhaol i’r cyfryngau cymdeithasol:

**Negyddol:**

- Yn gallu rhoi pwysedd arnon ni i gymharu ein bywydau ag eraill
- Yn gallu arwain at fod yn ddibynnol neu’n gaeth iddyn nhw

**Cadarnhaol:**

- Yn gallu darparu cyswllt rhad ac am ddim â phobl ledled y byd
- Yn gallu bod yn declyn defnyddiol i rannu gobaith a newyddion da

# Ymateb

**Cymerwch ennyd i weddïo dros y byd. Os oes ganddoch chi fap neu fodel o’r byd, gallai hynny fod yn adnodd gweledol gwirioneddol ddefnyddiol. Cewch ddilyn y canllawiau hyn i arwain eich gweddïau:**

- Rhowch fawl i Dduw - yn frenin brenhinoedd, creawdwr y bydysawd a’r Arglwydd sy’n dal y byd rhwng ei ddwylo.
- Diolchwch i Dduw mai E ydy Arglwydd yr holl bobloedd, cenhedloedd a diwylliannau ac nad oes yr un filltir sgwâr o’r byd sy’n anghyfarwydd iddo ac nad oes ganddo ofal a chariad amdani.
- Gweddïwch dros y colledig yn ein byd, am agweddau o ddiwylliant sy’n wenwynig ac angen eu hadfer, ac y byddai’r rhai sydd mewn anobaith yn canfod gobaith yn a thrwy Iesu.
- Gweddïwch dros yr eglwys ledled y byd, mewn lleoliadau ffynnianus, mewn mannau dan ormes ac erledigaeth ac yn eich cenedl eich hunain, y byddai hi’n effeithiol wrth ymgysylltu â phobl ar draws holl ystod cymdeithas gyda newyddion da Iesu.